## Cynnwys


1. Rhagymadrodd 2

2 Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2019-20 3

3. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn 12

4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion 24

5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion 25

6. Newidiadau i Gyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) 26

Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb 28

Atodiad 2 – Geirfa 30


Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon cysylltwch â: wag-en@mailuk.custhelp.com

## 1. Rhagymadrodd

**1.1** Heddiw cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2019-20, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae’r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i’r gyllideb derfynol ar gyfer 2019-20 fel y’i cymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') ar 15 Ionawr 2019.

**1.2** Mae'r gyllideb atodol hon yn cysoni nifer o ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn, ynghyd â throsglwyddiadau o fewn y portffolios a rhyngddynt. Mae'n cynnwys addasiadau i gyllideb DEL Cymru i adlewyrchu trosglwyddiadau a symiau canlyniadol a ddaeth i law ym Mhrif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU 2019, ac yn adlewyrchu newidiadau i ragolygon Gwariant a Reolir yn Flynyddol, yn unol â'r manylion diweddaraf a roddwyd i Drysorlys Ei Mawrhydi.

**1.3** Ceir crynodeb o'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb hon yn y penodau canlynol.

**1.4** Mae’r ddogfen hon yn ategu 'Tablau Llinell Wariant y Gyllideb (BEL)' sydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 2 Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2019-20

**2.1** Mae nifer o newidiadau sy'n adlewyrchu'r diwygiadau ers i'r Cynulliad gytuno ar gyllideb derfynol 2019-20 ar 15 Ionawr 2019. Mae'r newidiadau'n cynnwys addasiadau i linellau sylfaen adnoddau a chyfalaf, trosglwyddiadau rhwng portffolios y Gweinidogion a dyraniadau o gronfeydd wrth gefn.

Mae Tablau 2.1 i 2.3 yn amlinellu effaith net yr holl newidiadau ac mae tabl 2.4 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl Prif Grŵp Gwariant (MEG) yn y gyllideb atodol hon.

## Tabl 2.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

| ELFENNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU | Cyllideb Derfynol 2019-20 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Mehefin 2019 |
|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **CYLLIDO ADNODDAU** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyllidol | 11,690,806 | 309,363 | 12,000,169 |
| Anghyllidol | 689,981 | 83 | 690,064 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Cymru | 125,000 | 0 | 125,000 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyllidol | 27,994 | -2,900 | 25,094 |
| Anghyllidol | 122,368 | -52,765 | 69,603 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Ardrethi Annomestig | 1,061,000 | 0 | 1,061,000 |
| Cyfradd Treth Incwm Cymru | 2,059,000 | 0 | 2,059,000 |
| Treth Trafodiadau Tir | 256,000 | 0 | 256,000 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 43,000 | 0 | 43,000 |
| Prif ad-daliad o'r benthyciad | -3,147 | 1,919 | -1,228 |
| **CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU** | **16,072,002** | **255,700** | **16,327,702** |
| **CYLLIDO CYFALAF** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyffredinol | 1,827,817 | 17,139 | 1,844,956 |
| Trafodiadau Ariannol | 300,219 | 0 | 300,219 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyfalaf | 801,468 | -27,166 | 774,302 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Benthyca | 125,000 | 0 | 125,000 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF** | **3,054,504** | **-10,027** | **3,044,477** |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | **19,126,506** | **245,673** | **19,372,179** |

## Tabl 2.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|
| **Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | **Cyllideb Derfynol 2019-20** | **Newidiadau** | **Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Mehefin 2019** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 8,349,584 | 145,652 | 8,495,236 |
| Tai a Llywodraeth Leol | | 5,515,138 | 92,433 | 5,607,571 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | | 1,310,245 | 43,129 | 1,353,374 |
| Addysg | | 2,418,070 | -38,508 | 2,379,562 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | | 199,111 | -19,344 | 179,767 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | | 295,455 | 5,385 | 300,840 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 323,476 | 35,437 | 358,913 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | | **18,411,079** | **264,184** | **18,675,263** |
| Adnoddau heb eu Dyrannu | Adnoddau Cyllidol | 135,010 | 43,345 | 178,355 |
| | Adnoddau Anghyllidol | 155,838 | 0 | 155,838 |
| Cyfalaf heb ei glustnodi | Cyffredinol | 164,375 | -63,952 | 100,423 |
| | Trafodiadau Ariannol | 190,743 | 0 | 190,743 |
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru [Nodyn] | | 57,023 | 965 | 57,988 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru [Nodyn] | | 4,555 | 399 | 4,954 |
| Swyddfa Archwilio Cymru [Nodyn] | | 7,146 | 732 | 7,878 |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 737 | 0 | 737 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU** | | **19,126,506** | **245,673** | **19,372,179** |

### Nodyn

Mae cyllidebau pob un o'r Cyrff a Noddir yn Uniongyrchol wedi'u codi i adlewyrchu'r costau sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiynau'r gwasanaethau cyhoeddus, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU.

Mae cyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i chodi hefyd, oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â'r pwerau sy'n codi o'r bil newydd, Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

Ceir dadansoddiad o'r holl gostau hyn yn nhabl 3.1 isod ac yn y cyllidebau atodol a gyhoeddir ar gyfer pob un o'r cyrff dan sylw.

## Tabl 2.3 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Adnoddau Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CYLLIDOL | | | ANGHYLLIDOL | | |
| | Cyllideb Derfynol 2019-20 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Mehefin 2019 | Cyllideb Derfynol 2019-20 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Mehefin 2019 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 7,625,388 | 185,652 | 7,811,040 | 190,000 | 0 | 190,000 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 3,813,634 | 30,367 | 3,844,001 | 200 | 0 | 200 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 502,537 | 17,233 | 519,770 | 190,000 | 0 | 190,000 |
| Addysg | 1,395,432 | 8,267 | 1,403,699 | 107,154 | 0 | 107,154 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 165,238 | -10,344 | 154,894 | 6,677 | 0 | 6,677 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 185,436 | 4,268 | 189,704 | 21,592 | 83 | 21,675 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 283,295 | 30,403 | 313,698 | 16,000 | 0 | 16,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **13,970,960** | **265,846** | **14,236,806** | **531,623** | **83** | **531,706** |

## Tabl 2.4 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Cyfalaf Llywodraeth Cymru

| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **£000oedd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **CYFALAF CYFFREDINOL** | | | **TRAFODIADAU ARIANNOL** | | |
| | **Cyllideb Derfynol 2019-20** | **Newidiadau** | **Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Mehefin 2019** | **Cyllideb Derfynol 2019-20** | **Newidiadau** | **Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Mehefin 2019** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 369,096 | 0 | 369,096 | 4,000 | 0 | 4,000 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 539,673 | 64,966 | 604,639 | 72,637 | 0 | 72,637 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 531,015 | 16,802 | 547,817 | 33,350 | 0 | 33,350 |
| Addysg | 216,192 | 2,250 | 218,442 | -191 | 0 | -191 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 24,503 | -9,000 | 15,503 | -320 | 0 | -320 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 86,027 | 1,034 | 87,061 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 21,204 | 5,034 | 26,238 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,787,710** | **81,086** | **1,868,796** | **109,476** | **0** | **109,476** |

**2.2** Darperir golwg gyffredinol ar y newidiadau i ffynonellau'r cyllid isod a gellir gweld manylion dyraniadau o gronfeydd wrth gefn a throsglwyddiadau rhwng portffolios y Gweinidogion yn adrannau 3 a 4 yn eu trefn.

## Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

### Adnoddau Cyllidol

**2.3** Cafwyd cynnydd net i linell sylfaen Adnoddau Cyllidol o £309,363k gan gynnwys:

- Trosglwyddiad o £14,687k i mewn oddi wrth y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
- Trosglwyddiad o £650k i mewn oddi wrth yr Asiantaeth Diogelwch a Chudd-wybodaeth mewn perthynas â seibergadernid;
- Trosglwyddiad o £607k i mewn oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) mewn perthynas â swyddogaethau coedwigaeth trawsffiniol;
- Trosglwyddiad o £173k i mewn oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi mewn perthynas ag arbedion yng nghostau gweinyddol trethi datganoledig Trafodiadau Tir a Gwarediadau Tirlenwi;
- Symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £291,223k gan gynnwys:
  - £145,215k mewn perthynas â chostau pensiwn;
  - £51,101k mewn perthynas ag Ardrethi Busnes;
  - £35,406k o ganlyniad i hawliad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gronfeydd wrth gefn y Trysorlys;
  - £29,700k mewn perthynas ag ail-gostio Rhyddhad Ardrethi Busnes;
  - £27,500k mewn perthynas â Brexit; a
  - £2,301k o ganlyniad i hawliad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gronfeydd wrth gefn y Trysorlys;

- Trosglwyddiad o £2,446k i mewn oddi wrth Drysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngor Ariannol;
- Trosglwyddiad o £323k allan o ganlyniad i drosi addasiad y grant bloc o filiynau wedi'u talgrynnu i filoedd wedi'u talgrynnu; a
- Trosglwyddiad o £100k allan i Drysorlys ei Mawrhydi mewn perthynas ag ariannu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am waith a wnaed ar ragolygon trethi datganoledig.

### Adnoddau Anghyllidol

**2.4** Cafwyd cynnydd o £83k i linell sylfaen adnoddau anghyllidol o ganlyniad i drosglwyddiad oddi wrth DEFRA mewn perthynas â swyddogaethau coedwigaeth trawsffiniol.

### Cyllido Datganoledig Cymru

**2.5** Ceir gostyngiad o £1,919k yn swm ad-daliadau'r prifswm ar fenthyca i adlewyrchu'r lefelau benthyca is na'r disgwyl yn ystod 2018-19.  Nid oes unrhyw newid i ragolygon y refeniw trethi datganoledig.

### Cyfalaf Cyffredinol

**2.6** Cafwyd cynnydd o £17,139k i linell sylfaen cyfalaf cyffredinol gan gynnwys:

- Trosglwyddiad o £2,250k i mewn oddi wrth yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) mewn perthynas ag enillwyr cystadleuaeth 'GovTech' yng Nghymru;
- Trosglwyddiad o £384k i mewn oddi wrth DEFRA mewn perthynas â swyddogaethau coedwigaeth trawsffiniol; a
- Symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £14,505k, gan gynnwys:
  - £6,668k o ganlyniad i hawliad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gronfeydd wrth gefn y Trysorlys;
  - 4,253k oddi wrth BEIS yn ymwneud â Chronfa Genedlaethol Buddsoddi mewn Cynhyrchiant; a

- £3,584k mewn perthynas â Brexit.

### Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

**2.7** Nid oes unrhyw newidiadau i llinell sylfaen cyllido sydd wedi'i chlustnodi ar gyfer trafodiadau ariannol ers y gyllideb derfynol.

### Cyllido AME

**2.8** Ceir manylion addasiadau i gyllido a gwariant AME ym Mhennod 6.

## Tabl 2.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

| | CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2019-20 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | | | | | |
| | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | AME | | | CYFANSWM DYRANIAD MEG |
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **Cyllidol** | **Anghyllidol** | **Cyfanswm Adnoddau** | **Cyffredinol** | **Trafodiadau Ariannol** | **Cyfanswm Cyfalaf** | **Adnoddau** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm AME** | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 7,811,040 | 190,000 | **8,001,040** | 369,096 | 4,000 | **373,096** | 121,100 | 0 | **121,100** | **8,495,236** |
| Tai a Llywodraeth Leol | 3,844,001 | 200 | **3,844,201** | 604,639 | 72,637 | **677,276** | 1,086,094 | 0 | **1,086,094** | **5,607,571** |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 519,770 | 190,000 | **709,770** | 547,817 | 33,350 | **581,167** | 62,437 | 0 | **62,437** | **1,353,374** |
| Addysg | 1,403,699 | 107,154 | **1,510,853** | 218,442 | -191 | **218,251** | -123,844 | 774,302 | **650,458** | **2,379,562** |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 154,894 | 6,677 | **161,571** | 15,503 | -320 | **15,183** | 3,013 | 0 | **3,013** | **179,767** |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 189,704 | 21,675 | **211,379** | 87,061 | 0 | **87,061** | 2,400 | 0 | **2,400** | **300,840** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 313,698 | 16,000 | **329,698** | 26,238 | 0 | **26,238** | 2,977 | 0 | **2,977** | **358,913** |
| **CYFANSWM Y DYRANIADAU I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU** | **14,236,806** | **531,706** | **14,768,512** | **1,868,796** | **109,476** | **1,978,272** | **1,154,177** | **774,302** | **1,928,479** | **18,675,263** |

## 3. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn

**3.1** Mae'r gyllideb yn cysoni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt. Mae rhestr gyflawn i'w chael yn nhabl 3.1.

**3.2** Mae cyllidebau atodol yn cynnig y cyfle i wneud newidiadau i gynlluniau gwario Llywodraeth Cymru a nodwyd yn y gyllideb derfynol flaenorol. Ar y cyfan, mae dyraniadau o gronfeydd wrth gefn yn parhau i adlewyrchu'r blaenoriaethau yn y gyllideb derfynol, gan fwrw ymlaen â'r ymrwymiadau yn Symud Cymru Ymlaen a'r Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn sail iddynt.

**3.3** Er hynny, wrth eu natur mae cyllidebau atodol yn canolbwyntio hefyd ar y pwysau a'r cyfleoedd sy'n codi yn ystod y flwyddyn ariannol. Ni fydd pob un wedi codi o ganlyniad i amcanion strategol Llywodraeth Cymru, ond gallent ofyn am ymyrraeth Llywodraeth Cymru gydag effaith ar y gyllideb yn sgil hynny.

### Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**3.4** Mae £239,438k wedi'i ddyrannu i dalu costau ychwanegol i sefydliadau'r sector cyhoeddus yn sgil newidiadau i gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU. Mae'r dyraniadau yn cael eu gwneud i nifer o feysydd portffolio i dalu'r costau ychwanegol a wynebir gan gynlluniau pensiwn yr effeithir arnynt i GIG Cymru, athrawon, diffoddwyr tân a'r gwasanaeth sifil gan gynnwys rhai cyrff hyd braich.

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £170,606k
- Tai a Llywodraeth Leol £ 46,194k
- Addysg £ 9,067k
- Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol £ 494k
- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig £ 2,011k

- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu £ 11,066k

Mae'r gronfa wrth gefn hefyd wedi ariannu codiadau i'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol o £1,845k ar gyfer costau pensiwn ychwanegol:

- Comisiwn y Cynulliad £ 965k
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru £ 148k
- Swyddfa Archwilio Cymru £ 732k

**3.5** Mae cyllid ar gyfer 2019-20 oddi wrth Gronfa Bontio'r UE hefyd yn cael ei ddyrannu yn y gyllideb atodol hon. Cynlluniwyd y Gronfa i helpu busnesau, cyrff y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i baratoi ar gyfer Brexit trwy gynnwys busnesau a chymunedau i nodi'r meysydd hynny sy'n gofyn am gymorth ychwanegol wrth i Brexit nesáu. Bydd yn cynnig cymorth ariannol uniongyrchol i sectorau ledled Cymru i gynllunio ar gyfer y newidiadau a gysylltir ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

**3.6** Mae cyfanswm o gyllid adnoddau cyllidol o £8,992k wedi'i ddyrannu i dalu am ystod o ymyriadau. Nodir cyfanswm y dyraniadau i bob MEG isod ac mae dadansoddiad llawn o bob un i'w gael yn nhabl 3:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £ 359k
- Tai a Llywodraeth Leol £ 500k
- Yr Economi a Thrafnidiaeth £ 918k
- Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol £ 3,460k
- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig £ 1,650k
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu £ 2,105k

3.7 Yn ogystal gwnaed y dyraniadau canlynol i bortffolios o gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

- £14,687k i BEL Dyraniadau Craidd y GIG mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo, gan adlewyrchu'r trosglwyddiad a ddaeth i law oddi wrth y Swyddfa Gartref.

- Yr Economi a Thrafnidiaeth
  - £1,650k i BEL Gweithrediadau'r Rhwydwaith mewn perthynas â'r costau a gysylltir â'r tollau ar Bont Cleddau.

- Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
  - £27k i BEL Arweinyddiaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd mewn perthynas ag Amgueddfa Lloyd George, gan adlewyrchu'r trosglwyddiad a ddaeth i law oddi wrth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:
  - £607k i BEL Coedwigaeth mewn perthynas â throsglwyddo swyddogaethau coedwigaeth trawsffiniol, gan adlewyrchu'r trosglwyddiad a ddaeth i law oddi wrth DEFRA.

- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu:
  - £2,446k i BEL Gwasanaethau Eiriolaeth, gan adlewyrchu'r trosglwyddiad a ddaeth i law oddi wrth Drysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngor Ariannol.

## Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**3.8** Gwnaed y trosglwyddiadau canlynol i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn o MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu:

- £1,901k o BEL Cost Benthyca o ganlyniad i'r gostyngiad yn y benthyca cyfalaf a ragwelir ar gyfer 2019-20; a

- £100k o BEL Trethi Datganoledig i gwmpasu'r gyllideb a drosglwyddwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer darparu rhagolygon trethi annibynnol.

### Dyraniad o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**3.9** Gwnaed trosglwyddiad o £83k i BEL Coedwigaeth o fewn MEG yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â swyddogaethau coedwigaeth trawsffiniol. Mae hyn yn adlewyrchu'r trosglwyddiad a ddaeth i law oddi wrth DEFRA.

### Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

**3.10** Mae cyfanswm o £85,000k wedi'i ddyrannu o gronfeydd cyfalaf wrth gefn i ddarparu buddsoddiad ychwanegol mewn tai cymdeithasol a chynnal a chadw cefnffyrdd a thraffyrdd er mwyn darparu hwb economaidd, gan roi hyder a sicrwydd i fusnesau a'r sector adeiladu a gwella canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol.

**3.11** Cafodd y dyraniadau hyn eu gwneud yn unol â chyfres o feini prawf gwerthuso a oedd yn ymwneud ag ystod eang o ystyriaethau. Y cynigion y penderfynwyd bwrw ymlaen â nhw ar y cam hwn oedd y rhai y gellid eu cyflawni'n gyflym o fewn y flwyddyn, gan roi budd economaidd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru – er enghraifft cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd da. Rhoddwyd blaenoriaeth hefyd i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith a fyddai'n hybu'r galw economaidd ac yn cefngi'r gadwyn gyflenwi ehangach, ar adeg pan fo angen meithrin hyder oherwydd yr ansicrwydd ynghylch Brexit.

Roedd y dyraniadau i bortffolios fel a ganlyn;

- Tai a Llywodraeth Leol:
  - £50,000k i BEL Grant Tai Cymdeithasol mewn perthynas â buddsoddi mewn tai cymdeithasol i gefnogi darparu hyd at 650 o dai fforddiadwy ledled Cymru; a
  - £20,000k i BEL Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol mewn perthynas â Phecyn Ariannu Awdurdodau Lleol. Bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol wrth ddefnyddio'r

cyllid hwn ble bynnag y mae ei angen fel rhan o'r pecyn ysgogi ehangach.

- Yr Economi a Thrafnidiaeth:
  - £10,000k i BEL Datblygu Busnes mewn perthynas â Chronfa Dyfodol yr Economi a fydd yn cyflymu'r gwaith o ddarparu'r gwahanol becynnau cymorth o fewn y gronfa ar draws holl ranbarthau Cymru; a
  - £5,000k i BEL Gweithrediadau'r Rhwydwaith mewn perthynas â Cherbytffyrdd Cefnffyrdd a Thraffyrdd i gefnogi cynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd ym mhob rhan o Gymru, gan gefnogi'r gadwyn gyflenwi arbenigol yr un pryd.

**3.12** Yn ychwanegol at y dyraniadau a nodir yn adran 3.11 uchod mae'r dyraniadau canlynol wedi'u gwneud i'r portffolios o gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn:

- Yr Economi a Thrafnidiaeth:
  - £1,802k mewn perthynas â chyllid pontio'r UE.

- Addysg:
  - £2,250k i BEL Arloesi ar gyfer Busnes mewn perthynas ag enillwyr cystadleuaeth 'GovTech', gan adlewyrchu'r trosglwyddiad a ddaeth i law oddi wrth BEIS.

- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:
  - £384k i BEL Coedwigaeth mewn perthynas â throsglwyddo swyddogaethau coedwigaeth trawsffiniol, gan adlewyrchu'r trosglwyddiad a ddaeth i law oddi wrth DEFRA; a
  - £650k mewn perthynas â chyllid pontio'r UE.

Mae dadansoddiad llawn o'r cyllid a ddyfarnwyd mewn perthynas â Chronfa Bontio'r UE i'w weld yn nhabl 3.1.

### Trosglwyddiadau i Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

**3.13** Mae £9,000k o gyllid cyfalaf cyffredinol wedi'i drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn o BEL Arweinyddiaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd o fewn MEG y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.

(Bwriedir ailbroffilio'r cyllid hwn yn y blynyddoedd i ddod fel rhan o'n Cytundeb Cyllideb â Phlaid Cymru i fwrw ymlaen â gwaith sy'n deillio o'r astudiaethau ymarferoldeb i oriel gelf genedlaethol ac amgueddfa bêl-droed genedlaethol.)

### Cronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

**3.14** Ni chafwyd unrhyw newidiadau i gronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon.

Mae tabl 3.1 isod yn adlewyrchu'r holl symudiadau ar gronfeydd wrth gefn:

**Tabl 3.1 – Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn 2019-20 ers y Gyllideb Derfynol a'r Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn sy'n cael eu gwneud yn y Gyllideb Atodol hon**

| | £000oedd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau Cyllidol | Adnoddau Anghyllidol | Cyfanswm Adnoddau | Cyfalaf Cyffredinol | Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | Cyfanswm Cyfalaf | Cyfanswm |
| **Cronfeydd Wrth Gefn adeg y Gyllideb Derfynol** | **135,010** | **155,838** | **290,848** | **164,375** | **190,743** | **355,118** | **645,966** |
| Trosglwyddiadau a symiau canlyniadol ers y Gyllideb Derfynol | 309,686 | 83 | **309,769** | 17,139 | 0 | **17,139** | **326,908** |
| **Cronfeydd Wrth Gefn Diwygiedig** | **444,696** | **155,921** | **600,617** | **181,514** | **190,743** | **372,257** | **972,874** |
| **Newidiadau:** | | | | | | | |
| **IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | | | | | | |
| Y Gordal Iechyd Mewnfudo – trosglwyddiad oddi wrth y Swyddfa Gartref | -14,687 | 0 | **-14,687** | 0 | 0 | **0** | **-14,687** |
| Cynnydd mewn costau pensiwn | -170,606 | 0 | **-170,606** | 0 | 0 | **0** | **-170,606** |
| Cyllid pontio'r UE - Cydffederasiwn y GIG | -101 | 0 | **-101** | 0 | 0 | **0** | **-101** |
| Cyllid pontio'r UE – Cadernid Iechyd y Cyhoedd | -30 | 0 | **-30** | 0 | 0 | **0** | **-30** |
| Cyllid pontio'r UE - Cymorth Brexit Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | -120 | 0 | **-120** | 0 | 0 | **0** | **-120** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid pontio'r UE - Epidemioleg Maes y DU | -90 | 0 | **-90** | 0 | 0 | **0** | **-90** |
| Cyllid pontio'r UE - Meithrin Cadernid mewn Cymunedau Ffermio | -18 | 0 | **-18** | 0 | 0 | **0** | **-18** |
| **IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | **-185,652** | **0** | **-185,652** | **0** | **0** | **0** | **-185,652** |
| **TAI A LLYWODRAETH LEOL** | | | | | | | |
| Cynnydd mewn costau pensiwn | -46,194 | 0 | **-46,194** | 0 | 0 | **0** | **-46,194** |
| Cyllid pontio'r UE - Fforymau Cydnerthedd Lleol – Cymorth Argyfyngau Sifil Posibl | -500 | 0 | **-500** | 0 | 0 | **0** | **-500** |
| Cronfa Ysgogi'r Economi – Buddsoddi mewn Tai Cymdeithasol | 0 | 0 | **0** | -50,000 | 0 | **-50,000** | **-50,000** |
| Cronfa Ysgogi'r Economi – Pecyn Cyllido i Lywodraeth Leol | 0 | 0 | **0** | -20,000 | 0 | **-20,000** | **-20,000** |
| **TAI A LLYWODRAETH LEOL** | **-46,694** | **0** | **-46,694** | **-70,000** | **0** | **-70,000** | **-116,694** |
| **YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH** | | | | | | | |
| Cyllid pontio'r UE - Grant Cydnerthedd Brexit | -308 | 0 | **-308** | -462 | 0 | **-462** | **-770** |
| Cyllid pontio'r UE – Meithrin Capasiti ar y Cyd | -250 | 0 | **-250** | 0 | 0 | **0** | **-250** |
| Cyllid pontio'r UE – Cymorth Ychwanegol ar gyfer Cadernid Busnesau | -360 | 0 | **-360** | -1,340 | 0 | **-1,340** | **-1,700** |
| Pont Cleddau | -1,650 | 0 | **-1,650** | 0 | 0 | **0** | **-1,650** |
| Cronfa Ysgogi'r Economi – Cronfa Dyfodol yr Economi | 0 | 0 | **0** | -10,000 | 0 | **-10,000** | **-10,000** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Ysgogi'r Economi – Cerbytffyrdd Cefnffyrdd a Thraffyrdd | 0 | 0 | **0** | -5,000 | 0 | **-5,000** | **-5,000** |
| **YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH** | **-2,568** | **0** | **-2,568** | **-16,802** | **0** | **-16,802** | **-19,370** |
| **ADDYSG** | | | | | | | |
| Cynnydd mewn costau pensiwn | -9,067 | 0 | **-9,067** | 0 | 0 | **0** | **-9,067** |
| Enillwyr gwobr GovTech – trosglwyddo o BEIS | 0 | 0 | **0** | -2,250 | 0 | **-2,250** | **-2,250** |
| **ADDYSG** | **-9,067** | **0** | **-9,067** | **-2,250** | **0** | **-2,250** | **-11,317** |
| **Y GYMRAEG A CHYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL** | | | | | | | |
| Cynnydd mewn costau pensiwn | -494 | 0 | **-494** | 0 | 0 | **0** | **-494** |
| Amgueddfa Lloyd George – trosglwyddo o DCMS | -27 | 0 | **-27** | 0 | 0 | **0** | **-27** |
| Cyllid pontio'r UE - Gwella Gwasanaethau Allforio | -1,500 | 0 | **-1,500** | 0 | 0 | **0** | **-1,500** |
| Cyllid pontio'r UE - Gwella'r Cymorth Allforio Ar-lein | -150 | 0 | **-150** | 0 | 0 | **0** | **-150** |
| Cyllid pontio'r UE - Ymgyrch Hyder Busnes a Chydnerthedd Brexit | -450 | 0 | **-450** | 0 | 0 | **0** | **-450** |
| Cyllid pontio'r UE – Gwybodaeth am Fasnach ac Ymchwil i Farchnadoedd y tu Allan i'r UE | -300 | 0 | **-300** | 0 | 0 | **0** | **-300** |
| Cyllid pontio'r UE - Agyfnerthu Enw Da a Chysylltiadau Cymru yn Rhyngwladol | -1,060 | 0 | **-1,060** | 0 | 0 | **0** | **-1,060** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ailbroffilio cyllid mewn perthynas â'n Cytundeb Cyllideb gyda Phlaid Cymru | 0 | 0 | **0** | 9,000 | 0 | **9,000** | **9,000** |
| **Y GYMRAEG A CHYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL** | **-3,981** | **0** | **-3,981** | **9,000** | **0** | **8,934** | **5,019** |
| **YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG** | | | | | | | |
| Cynnydd mewn costau pensiwn | -2,011 | 0 | **-2,011** | 0 | 0 | **0** | **-2,011** |
| Trosglwyddo swyddogaethau coedwigaeth trawsffiniol – trosglwyddo o DEFRA | -607 | -83 | **-690** | -384 | 0 | **-384** | **-1,074** |
| Cyllid pontio'r UE - Brand Cymru | -400 | 0 | **-400** | -100 | 0 | **-100** | **-500** |
| Cyllid pontio'r UE - Diwallu gofynion tystiolaeth LIC o ran pysgodfeydd ar gyfer ymadael â'r UE | -1,100 | 0 | **-1,100** | 0 | 0 | **0** | **-1,100** |
| Cyllid pontio'r UE – cymwysiadau a chaledwedd hawlenni a thrwyddedau | -100 | 0 | **-100** | -200 | 0 | **-200** | **-300** |
| Cyllid pontio'r UE - deunydd pecynnu coed sy'n cydymffurfio | -50 | 0 | **-50** | -350 | 0 | **-350** | **-400** |
| **YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG** | **-4,268** | **-83** | **-4,351** | **-1,034** | **0** | **-1,034** | **-5,385** |
| **GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU** | | | | | | | |
| Cynnydd mewn costau pensiwn | -11,066 | 0 | **-11,066** | 0 | 0 | **0** | **-11,066** |
| Gwasanaethau cyngor ariannol | -2,446 | 0 | **-2,446** | 0 | 0 | **0** | **-2,446** |
| Gostyngiad i'r gost benthyca (llog) | 1,901 | 0 | **1,901** | 0 | 0 | **0** | **1,901** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trosglwyddiad i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol o ran darparu rhagolygon trethi annibynnol | 100 | 0 | **100** | 0 | 0 | **0** | **100** |
| Cyllid pontio'r UE - grymuso cymunedau yng nghyd-destun Brexit | -105 | 0 | **-105** | 0 | 0 | **0** | **-105** |
| Cyllid pontio'r UE - Cryfhau cydlyniant cymunedol | -760 | 0 | **-760** | 0 | 0 | **0** | **-760** |
| Cyllid pontio'r UE - Meincnodi OECD | -100 | 0 | **-100** | 0 | 0 | **0** | **-100** |
| Cyllid pontio'r UE - paratoi ar gyfer y cynlluniau i olynu cronfeydd strwythurol yr UE | -290 | 0 | **-290** | 0 | 0 | **0** | **-290** |
| Cyllid pontio'r UE - Statws preswylydd sefydlog a chyngor ar fewnfudo | -250 | 0 | **-250** | 0 | 0 | **0** | **-250** |
| Cyllid pontio'r UE – Mynd i'r afael a throseddau casineb a gweithredu ar gydlyniant cymunedol | -600 | 0 | **-600** | 0 | 0 | **0** | **-600** |
| **GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU** | **-13,616** | **0** | **-13,616** | **0** | **0** | **0** | **-13,616** |
| **NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | | | | | | | |
| Gostyngiad i brif ad-daliad y benthyciad | 1,919 | 0 | **1,919** | 0 | 0 | **0** | **1,919** |
| Trosi addasiad y grant bloc o £m i £k | -323 | 0 | **-323** | 0 | 0 | **0** | **-323** |
| Cynydd mewn costau pensiwn – Comisiwn y Cynulliad | -965 | 0 | **-965** | 0 | 0 | **0** | **-965** |
| Cynnydd mewn costau pensiwn – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | -148 | 0 | **-148** | 0 | 0 | **0** | **-148** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau ychwanegol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gysylltiedig â'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd | -246 | 0 | **-246** | -5 | 0 | **-5** | **-251** |
| Cynnydd mewn costau pensiwn – Swyddfa Archwilio Cymru | -732 | 0 | **-732** | 0 | 0 | **0** | **-732** |
| **NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | **-495** | **0** | **-495** | **-5** | **0** | **-5** | **-500** |
| **Cronfeydd Wrth Gefn yn y Gyllideb hon** | **178,355** | **155,838** | **334,193** | **100,423** | **190,743** | **291,166** | **625,359** |

## 4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion

4.1 Mae'r adran hon yn rhoi manylion y trosglwyddiadau rhwng y MEGs.

### Newidiadau yng Nghyfrifoldebau'r Gweinidogion

**4.2** Yn sgil ad-drefnu'r Cabinet yn Rhagfyr 2018 ac ailstrwythuro MEGs, cafodd cyllideb derfynol 2019-20 ei hailddatgan i adlewyrchu'r cyfrifoldebau gweinidogol newydd.

Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnwys nifer o drosglwyddiadau rhwng MEGs sy'n ymwneud â'r ad-drefnu na chynhwyswyd mohonynt fel rhan o ailddatgan y gyllideb derfynol. Dyma fanylion y trosglwyddiadau:

- Mae BEL Swyddogion Cymorth Cymunedol a BEL Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol wedi'u trosglwyddo o MEG Tai a Llywodraeth Leol i MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu gan arwain at symud adnoddau cyllidol o £16,787k a chyllid cyfalaf cyffredinol o £5,034k.
- Mae BEL Gyrfa Cymru wedi'i throsglwyddo o MEG Addysg i MEG yr Economi a Thrafnidiaeth gan arwain at symud cyllid adnoddau o £18,800k a chyllid AME o £12,000k;
- Mae BEL y Gymraeg mewn addysg wedi'i throsglwyddo o MEG y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i MEG Addysg gan arwain at symud cyllid adnoddau cyllidol o £14,325k;
- Mae trosglwyddiad net o gyllid adnoddau o £3,675k wedi'i wneud rhwng nifer o BELs yn MEG yr Economi a Thrafnidiaeth i mewn i BEL Darpariaeth Addysg Bellach o fewn MEG Addysg; a
- Mae cyllid adnoddau cyllidol o £460k a drosglwyddwyd i BEL Cefnogi Cymunedau o fewn MEG Tai a Llywodraeth Leol o BEL Cymunedau mewn Gwaith o fewn MEG yr Economi a Thrafnidiaeth.

## 5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion

**5.1** Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng portffolios y Gweinidogion a nodir yn adran 4 uchod, mae nifer o drosglwyddiadau yn digwydd rhwng sawl BEL o fewn yr un portffolios ac mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y Tablau BEL cyhoeddedig.  Mae'r rhain yn gyffredinol yn weinyddol eu natur ac nid oes ganddynt unrhyw effaith net ar gyfansymiau MEGs unigol.

### MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**5.2** Cafwyd nifer o drosglwyddiadau rhwng sawl BEL yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyd-fynd yn gywir â'r dyraniadau a wnaed i'r Byrddau Iechyd Lleol ac i ariannu ymrwymiadau penodol.

### MEG Tai a Llywodraeth Leol

**5.3** O fewn MEG Tai a Llywodraeth Leol mae cyllid adnoddau a chyfalaf wedi'i drosglwyddo o BEL Gwasanaethau Tân ac Achub i BEL newydd Gwasanaethau Tân ac Achub - Systemau Cyfathrebu newydd.

### MEG yr Economi a Thrafnidiaeth

**5.4** Mae trosglwyddiadau adnoddau wedi digwydd o fewn MEG yr Economi a Thrafnidiaeth er mwyn i gyllidebau gyd-fynd yn gywir â 'Ffyniant i Bawb - Cynllun Gweithredu ar yr Economi' Llywodraeth Cymru.

### MEG y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

**5.5** Trosglwyddiad adnoddau i BEL y Gymraeg oddi wrth BEL y Gymraeg mewn Addysg i adlewyrchu cyfrifoldebau'r Gweinidogion yn gywir cyn i BEL y Gymraeg mewn addysg gael ei throsglwyddo i MEG Addysg.

Trosglwyddiad Cyfalaf Cyffredinol oddi wrth BEL cadw i BEL Amgueddfa Cymru sef ad-dalu trosglwyddiad cyfatebol oddi wrth Amgueddfa Cymru i Cadw yn 2017-18.

## 6. Newidiadau i Gyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

**6.1** Mae’r cyllidebau AME a nodir yn y Gyllideb Atodol hon yn adlewyrchu’r rhagolygon diweddaraf a ddarparwyd i Drysorlys EM. Mae'r addasiadau a wnaed ers i'r Gyllideb Derfynol gael ei chymeradwyo yn cynnwys:

- Gostyngiad o £40,000k yng nghyllideb AME Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer amhariadau a darpariaethau yn ymwneud â'r GIG yng Nghymru;
- Gostyngiad o £2,900k yng nghyllideb AME Tai a Llywodraeth Leol i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer Pensiynau'r Gwasanaeth Tân;
- Cynnydd o £9,094k yng nghyllideb AME yr Economi a Thrafnidiaeth gan gynnwys:
    - Gostyngiad o £2,096k ar gyfer amhariadau ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd yn unol â'r rhagolygon diweddaraf; ynghyd â
    - Cynnydd o £12,000k mewn perthynas â throsglwyddo ‘Gyrfa Cymru’ o MEG Addysg;
- Gostyngiad o £49,025k yng nghyllideb AME Addysg gan gynnwys:
    - Gostyngiad o £12,000k mewn perthynas â'r trosglwyddiad allan o ‘Gyrfa Cymru’ i MEG yr Economi a Thrafnidiaeth; a
    - Gostyngiad net o £37,025k i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer Benthyciadau Myfyrwyr gan gynnwys:
        - Gostyngiad o £9,859k yn AME Adnoddau; a
        - Gostyngiad o £27,166k yn AME Cyfalaf.

Yn Nhabl 6.1 isod gellir gweld effaith net yr holl newidiadau AME a restrir uchod.

## Tabl 6.1 – Newidiadau i Ddyraniadau AME MEG Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ADNODDAU | | | CYFALAF | | |
| | Cyllideb Derfynol 2019-20 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Mehefin 2019 | Cyllideb Derfynol 2019-20 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Mehefin 2019 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 161,100 | -40,000 | **121,100** | 0 | 0 | **0** |
| Tai a Llywodraeth Leol | 1,088,994 | -2,900 | **1,086,094** | 0 | 0 | **0** |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 53,343 | 9,094 | **62,437** | 0 | 0 | **0** |
| Addysg | -101,985 | -21,859 | **-123,844** | 801,468 | -27,166 | **774,302** |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 3,013 | 0 | **3,013** | 0 | 0 | **0** |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 2,400 | 0 | **2,400** | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,977 | 0 | **2,977** | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm y Dyraniad i Lywodraeth Cymru** | **1,209,842** | **-55,665** | **1,154,177** | **801,468** | **-27,166** | **774,302** |

## Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb

Mae'r Nodyn Esboniadol yn ategu Cynnig y Gyllideb Atodol, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon, sy'n nodi'r newidiadau i'r adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn 2019-20 a'r arian parod y mae'n ceisio awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn y nodyn hwn yn defnyddio cyfansymiau rheoli Trysorlys Ei Mawrhydi ac yn cyd-fynd â Thablau'r BEL. Er hynny, mae'r ffigurau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol yn cyd-fynd â'r Datganiad o Alldro Adnoddau a ddefnyddir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei baratoi ar sail ychydig yn wahanol.

Mae cyllideb weinyddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o eitemau sy'n cael eu sgorio y tu allan i gyfrifon Llywodraeth Cymru, ac felly nid ydynt yn sgorio fel rhan o'r Adnoddau y gofynnir amdanynt gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn darparu cysoniad rhwng y ddau yn ôl pob portffolio.

| | CYLLIDEB ATODOL 2019-20 £000oedd | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Tai a Llywodraeth Leol** | **Yr Economi a Thrafnidiaeth** | **Addysg** | **Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol** | **Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** | **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | **CYFANSWM** |
| Adnoddau | 8,001,040 | 3,844,201 | 709,770 | 1,510,853 | 161,571 | 211,379 | 329,698 | **14,768,512** |
| Cyfalaf | 373,096 | 677,276 | 581,167 | 218,251 | 15,183 | 87,061 | 26,238 | **1,978,272** |
| AME Adnoddau | 121,100 | 1,086,094 | 62,437 | -123,844 | 3,013 | 2,400 | 2,977 | **1,154,177** |
| AME Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 774,302 | 0 | 0 | 0 | **774,302** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR** | **8,495,236** | **5,607,571** | **1,353,374** | **2,379,562** | **179,767** | **300,840** | **358,913** | **18,675,263** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | | | | | | | | |
| Defnyddio Adnoddau – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | -250 | -200 | | -305 | -6,281 | -12,400 | | **-19,436** |
| Benthyca â Chymorth | | -88,800 | | | | | | **-88,800** |
| Costau Casglu Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -906 | | | | | | | **-906** |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a'r Costau Casglu) | | -1,066,172 | | | | | | **-1,066,172** |
| Taliadau Llog ar Fenthyciadau | | | | | | | -2,394 | **-2,394** |
| Benthyca gan Gorfforaethau Cyhoeddus | | | -10,700 | | | | | **-10,700** |
| Menter Cyllid Preifat | | | -8,982 | | | | | **-8,982** |
| **ADNODDAU Y GWNAED CAIS AMDANYNT** | **8,494,080** | **4,452,399** | **1,333,692** | **2,379,257** | **173,486** | **288,440** | **356,519** | **17,477,873** |

## Atodiad 2 – Geirfa

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu** | O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu. |
| **Cwmpasoedd** | Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Caiff disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau eu cynnwys yn y cynigion ar gyfer y Cyllidebau Blynyddol ac Atodol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r MEGs. |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr. |
| **Cynnig y Gyllideb** | Y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru. |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)** | O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn BELs. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel BEL ar gael yn: https://gov.wales/funding/budget/?skip=1&lang=cy |
| **Cyfalaf** | Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau DEL a Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw. |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi mewn Adolygiadau o Wariant. |
| **Dibrisiant** | Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol. |

| | |
|---|---|
| **Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru** | Gwariant y mae’n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu’n uniongyrchol ac felly nad yw’n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y taliadau a godir yn uniongyrchol mae taliad cydnabyddiaeth y Llywydd a’r Archwilydd Cyffredinol. |
| **Trafodiadau Ariannol** | Dim ond at ddibenion benthyciadau ac ecwiti y gellir defnyddio trafodiadau ariannol. Hefyd mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r cyllid i'r Trysorlys. |
| **DEL Adnoddau Cyllidol** (y cyfeirir ato weithiau fel refeniw) | Mae DEL Adnoddau Cyllidol yn sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau cyfredol a chymorthdaliadau. |
| **Prif Grŵp Gwariant (MEG)** | Mae DEL Llywodraeth Cymru'n cael ei rannu’n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ceir 7 o Brif Grwpiau Gwariant ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Tai a Llywodraeth Leol; yr Economi a Thrafnidiaeth; Addysg; y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol; yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. |
| **DEL Adnoddau Anghyllidol** (cyfeirir ato weithiau fel ‘adnoddau nad ydynt yn arian parod’) | Mae'r gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas â dibrisiant ac amhariadau benthyciadau i fyfyrwyr. Mae DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol. |
| **Derbyniadau** | Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol. |
| **Cyllidebu adnoddau** | Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi’i phennu ar sail adnoddau sy’n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae’r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd. |

| | |
|---|---|
| **Adnoddau** (arferid cyfeirio atynt fel 'refeniw') | Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul. |
| **Adolygiad o Wariant** | O bryd i'w gilydd mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.<br>Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett, sef y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | Cyfanswm Rheoli gan Drysorlys Ei Mawrhydi yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU. |
| **CNLC** | Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. |